Pan Aned Gynt Mewn Tlodi

Trwy ganu gyda'n gilydd y Nadolig hwn, gall eich eglwys gofio'r rhai sy'n wynebu tlodi a'r argyfwng hinsawdd, a sefyll mewn undod gyda'n chwiorydd a'n brodyr o amgylch y byd.

Pan Aned Gynt Mewn Tlodi

Pan aned gynt mewn tlodi caeth
Addewid mawr ein Hiôr,
Daeth gobaith eto'n fyw i'r tlawd –
Bydd digon yn eu stôr.
A'r proffwyd heria ninnau'n awr
I gydio yn y llyw:
'Clyw alwad heddiw Frenin Nef,
Gwna briffordd syth i Dduw.'

Pan grwydra dyn yn bell o Dduw,
A gwrthod siâr ei frawd.
Caiff yntau weld mai golud gwir
Yw rhannu gyda'r tlawd.
Rho sylw, ffrind, i broffwyd nawr,
I'w neges, bydd yn driw:
'Clyw alwad heddiw Frenin Nef,
Gwna briffordd syth i Dduw.'

Pan welodd Mair, y forwyn gref,
Yr angel disglair, gwyn,
Rhodd ofn o'r neilltu, mentro wnaeth
Yn gadarn a di-gryn.
Cans clywodd hithau neges glir
Y proffwyd tros ei Llyw:
'Clyw alwad heddiw Frenin Nef,
Gwna briffordd syth i Dduw.'

Geiriau gwreiddiol: Kathy Galloway, trwy ganiatâd.
Cyfieithiad Cymorth Cristnogol.
Awgrymir tôn: Kingsfold

Mae mwy o adnoddau yn cynnwys fidio o'r garol yn caid.org.uk/Christmas

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 UK company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid © Christian Aid